OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1580 (Cy.156)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Mehefin 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *26 Mehefin 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Gorffennaf 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) (Diwygio) 2009; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2009.

**Diwygio Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009**

**2.** Mae Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009(**3**) ("y Prif Reoliadau") wedi'u diwygio'n unol â Rheoliad 3.

**Diwygio'r fersiwn Saesneg o'r Prif Reoliadau**

**3.** Yn rheoliad 41(a) o'r fersiwn Saesneg o'r Prif Reoliadau, mewnosoder y gair "intentionally" ar ôl y gair "to".

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2009/1372 (Cy. 135).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

25 Mehefin 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009 (O.S. 2009/1372 (Cy.135) ("y Prif Reoliadau") sy'n rhoi ar waith yng Nghymru ddarpariaethau Cyfarwyddeb y Cyngor 92/119/EEC sy'n cyflwyno mesurau Cymunedol cyffredinol i reoli rhai clefydau anifeiliaid a mesurau penodol ynghylch clefyd pothellog y moch (OJ Rhif L 62, 15.3.1993, t. 69) i'r graddau y mae'r Gyfarwyddeb honno'n rheoli clefyd pothellog y moch a Chyfarwyddeb y Cyngor 2007/10/EC (OJ Rhif L 63, 1.3.2007, t.24).

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Prif Reoliadau drwy fewnosod y gair "intentionally" yn y fersiwn Saesneg o Reoliad 41(a).

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes.